

Adolygiad Blynyddol a Gwerthusiad o Berfformiad 2012/2013

Enw'r Awdurdod Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili
Lleol :

Mae'r adroddiad hwn yn nodi'r meysydd allweddol o gynnydd ar gyfer y flwyddyn 2012/13 yn Adran Gwasanaethau Cymdeithasol Caerffili a meysydd i'w gwella yn y dyfodol

Crynodeb

Mae gwasanaethau cymdeithasol Caerffili wedi parhau i berfformio'n dda yn ystod 2012 /13.

Roedd pwyslais y llynedd ar integreiddio'r gwasanaethau cymdeithasol gydag adran gwasanaethau cymdeithasol Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent. Fodd bynnag, ni ddigwyddodd hyn yn y pen draw. Mae'r ddwy ochri wedi cynnal ymrwymiad i weithio mewn partneriaeth mewn meysydd gwasanaeth penodol.

Er i'r penderfyniad gael ei wneud i beidio â bwrw ymlaen â'r integreiddio, cyfrannodd cyfarwyddwyr y ddwy adran gwasanaethau cymdeithasol at adolygiad o weithio ar y cyd. Arweiniodd hyn at gyhoeddi'r gwersi allweddol a ddysgwyd ac awgrymiadau cadarnhaol a chyngor i asiantaethau sy'n gweithio mewn partneriaeth.

Mae gweithio ar y cyd ag amrywiaeth o bartneriaid wedi bod yn uchel ar agenda'r gwasanaethau cymdeithasol ac mae hyn wedi cynnwys arwain nifer o drefniadau cydweithio rhanbarthol.

Cafwyd heriau tuag at ddiwedd y flwyddyn wrth i swyddi ddod ar gael ar lefel corfforaethol ac uwch reoli. Bydd hyn yn achosi heriau yn 2013/14 gan y bydd angen sefydlu uwch dîm rheoli newydd.

Mae adroddiad blynyddol cyfarwyddwr y gwasanaethau cymdeithasol yn eglur ac yn gytbwys. Mae'n darparu amlinelliad o'r gwasanaethau a ddarparwyd a newidiadau yn ystod y flwyddyn ac mae'n ddidwyll am heriau'r dyfodol. Mae'r cyfarwyddwr dros dro yn cydnabod yn ei adroddiad y bydd angen monitro effaith diwygio lles yn ofalus er mwyn cynnal ac ailgyfeirio gwasanaethau i'r meysydd allweddol o angen. Nodir blaenoriaethau ar gyfer y flwyddyn i ddod. Cydnabyddir y bydd angen parhau i adolygu gwasanaethau cyfredol yn ogystal

ag archwilio dewisiadau newydd eraill er mwyn parhau gwaith y cyngor o ddatblygu gwasanaethau cadarn ar gyfer y dyfodol.

Oedolion

Mae'r cyngor wedi parhau i adolygu a datblygu gwasanaethau gyda phartneriaid. Ceir ymrwymiad cryf i weithio gydag adrannau gwasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol eraill a'r adran iechyd. Mae hyn wedi cynnwys datblygu cysylltiadau cyfredol, fel y model Eiddilwch Gwent a chynnal gwasanaethau lleoli oedolion er enghraifft, yn ogystal â chymryd rhan mewn trefniadau newydd – bwrdd diogelu oedolion Gwent gyfan.

Adolygwyd y ddarpariaeth fewnol a sefydlwyd prosiectau a strategaethau newydd i wella gwasanaethau i bobl.

Plant

Mae'r gwasanaethau i blant wedi parhau i berfformio'n dda. Dilynwyd y trefniadau rhannu cyfarwyddwr cynorthwyol cychwynnol yn ystod y rhaglen integreiddio gan reoli ar y cyd am weddill y flwyddyn. Ni ddangosodd hyn effaith amlwg ar blant a phobl ifanc a oedd yn derbyn gwasanaethau.

Parhaodd y cyngor i adolygu gwasanaethau gan gynnwys darpariaeth breswyl ar gyfer plant sy'n derbyn gofal a gwasanaethau seibiant i blant ag anableddau, yn ogystal â chymryd rhan mewn cydweithredu rhanbarthol ar gyfer diogelu.

Er i berfformiad gael ei gynnal, bydd penodi cyfarwyddwr cynorthwyol newydd i'r gwasanaethau i blant yn 2013/14 yn cynnig cyfle i barhau'r datblygiad cadarnhaol.

Mae AGGCC wedi nodi'r risgiau posibl canlynol:

- Effaith trefniadau rheoli dros dro hirdymor ar yr adran.
- Effeithiau posibl ansefydlogrwydd corfforaethol.
- Cynnal y lefelau uchel cyfredol o wasanaeth mewn amgylchedd ariannol anodd.

Ymateb i feysydd datblygu'r llynedd

Un o'r meysydd risg posibl a amlygwyd yn adroddiad y llynedd oedd integreiddio gwasanaethau cymdeithasol Caerffili a Blaenau Gwent. Mae'r ddau bartner wedi bod yn eglur am yr hyn a ddysgwyd o hyn ac mae'r tîm datblygu'r gweithlu ar y cyd a sefydlwyd yn ddiweddar yn ganlyniad cadarnhaol o'r ymdrech a roddwyd i'r prosiect. Caiff canlyniadau'r gwaith hwn eu trafod yn rhan o ymgysylltiad parhaus AGGCC gyda'r ddau gyngor.

Cynhaliwyd adolygiad o'r cynnydd a wnaed o ran rhoi'r argymhellion o adolygiad AGIC ynglŷn â lladdiad ar waith ym mis Medi 2013 ac, er i ni ganfod bod cynnydd wedi ei wneud, roedd meysydd i'w gwella o hyd. Mae pennaeth y gwasanaethau i oedolion yn gweithio'n agos gyda phartneriaid iechyd a thai i gynnal y momentwm ar gyfer gwella.

Arfer da a nodwyd

Mae AGGCC wedi nodi'r meysydd canlynol o arfer da:

- Ymrwymiad parhaus i archwilio meysydd ar gyfer cydweithio ag amrywiaeth eang o bartneriaid, fel y tîm adnoddau cymunedol o fewn y model Eiddilwch Gwent ehangach, er enghraifft.
- Adolygu'r ddarpariaeth o wasanaethau mewnol yn arwain at newid cadarnhaol, datblygiad gwelyau ail-alluogi, archwilio strategaethau newydd ar gyfer gofalu am bobl â dementia, datblygu uned breswyl newydd i blant ac ailstrwythuro'r gwasanaeth seibiant i blant.
- Rhannu'r hyn a ddysgwyd o'r prosiect ar y cyd â Blaenau Gwent.
- Datblygu dulliau yn seiliedig ar ganlyniadau wrth gynllunio ac adolygu gofal asesu.

Ymweliadau ac arolygiadau a gynhaliwyd yn ystod y flwyddyn

Yn ogystal ag arolygiadau rheoleiddio a chyfarfodydd ymgysylltu, cyflawnodd AGGCC y gwaith canlynol yng Nghaerffili:

- Adolygiad cenedlaethol o swyddogaeth statudol cyfarwyddwr y gwasanaethau cymdeithasol.
- Ymweliad safle ac adolygiad o wasanaethau iechyd meddwl yng Nghaerffili.
- Mynychu cyfarfodydd ar integreiddio (fforwm darparwyr a chyfarfod cyhoeddus).

Meysydd i AGGCC wneud gwaith dilynol ynddynt y flwyddyn nesaf

Nodir nifer o feysydd penodol i'w gwella ym mhrif ran yr adroddiad hwn. Bydd cynnydd y cyngor o ran y rhain yn cael ei drafod gyda'r cyngor mewn cyfarfodydd ymgysylltu rheolaidd yn ystod y flwyddyn i ddod.

- Adolygiad o'r tîm datblygu'r gweithlu ar y cyd â Blaenau Gwent.
- Ymweliadau safle â grwpiau rhianta corfforaethol.
- Ymweliadau safle â grwpiau gofalwyr.
- Adolygiad thematig cenedlaethol o blant sy'n derbyn gofal.
- Adolygiad thematig cenedlaethol o gomisiynu gofal cymdeithasol ar gyfer pobl hŷn.
- Gwaith gyda Swyddfa Archwilio Cymru i gychwyn adolygiad i effeithiolrwydd prosiect Eiddilwch Gwent.

PERFFORMIAD

Llunio gwasanaethau:

Yn rhan o'r bwrdd gwasanaethau lleol sy'n cynnwys partneriaid gwasanaeth cyhoeddus a gwirfoddol, mae'r cyngor wedi datblygu cynllun integredig sengl. Mae hwn yn darparu adolygiad manwl o'r fwrdeistref yn seiliedig ar asesiad o anghenion lleol. Mae'n cydnabod yr amrywiaeth eang o anghenion ac mae'n

nodi meysydd allweddol ar gyfer datblygu a gwella gwasanaethau yng Nghaerffili. Mae'r cynllun Caerffili'n Cyflawni yn cynnwys amrywiaeth o strategaethau i fynd i'r afael â thlodi ac ar gyfer datblygiad yn y dyfodol i gryfhau cadernid lleol, canolbwyntio gwasanaethau a gwella bywydau pobl. Mae'r ddogfen yn rhychwantu ac yn cwmpasu strategaethau blaenorol ar gyfer gwasanaethau cymdeithasol i oedolion a phlant. Cynhaliwyd digwyddiadau ymgynghori cyhoeddus i ddarganfod safbwyntiau pobl leol wrth ddatblygu'r cynllun.

Defnyddiwyd yr adborth ar hyn gan ddefnyddwyr gwasanaeth i lywio datblygiad amcanion y cyngor ar gyfer 2013/14, sy'n cynnwys meysydd allweddol ar gyfer y gwasanaethau cymdeithasol.

Mae'r cyngor yn cynnal lefel uchel o ymgysylltiad â phobl leol trwy ddigwyddiadau, yn enwedig o ran codi ymwybyddiaeth genedlaethol, er enghraifft wythnos gofaluwr a diogelu oedolion a phlant.

Oedolion

Mae'r cyngor wedi parhau i lunio gwasanaethau i adlewyrchu newid demograffig. Mae adroddiad y cyfarwyddwr yn cynnwys cyfeiriad at ddatblygiad gwasanaethau i ddiwallu anghenion sy'n newid ac i gefnogi dewis unigolion o ran sut a lle y darperir gofal.

Ceir canolbwynt ar gynorthwyo pobl i aros yn y gymuned yn hytrach na mewn lleoliadau preswyl. Mae dangosyddion perfformiad yn dangos cynnydd yn nifer y bobl sy'n derbyn gofal yn y gymuned ynghyd â gostyngiad mewn lleoliadau preswyl.

Cefnogwyd hyn hefyd gan ddatblygiad gwelyau ail-alluogi yn un o gartrefi gofal preswyl y cyngor. Mae'r cyngor yn parhau i weithio'n agos â phartneriaid iechyd o fewn model Eiddilwch Gwent fel gwasanaeth ataliol a chefnogol i gadw pobl yn eu cartrefi eu hunain.

Mae'r niferoedd sy'n manteisio ar daliadau uniongyrchol wedi cynyddu ond mae nifer y bobl sy'n rhoi'r gorau i'w dderbyn wedi golygu bod y cyfanswm wedi aros yr un fath. Mae'r cyngor wedi cynllunio rhaglen o addysg ac ymwybyddiaeth ymhlith aelodau staff a defnyddwyr gwasanaeth yn 2013/14 i wella'r defnydd o daliadau uniongyrchol. Gellir trafod y cynnydd yn hyn o beth yn ein cyfarfodydd ymgysylltu yn ystod 2013/14.

Mae'r cyngor wedi parhau i gynnal ei ymrwymiad cryf i waith partneriaeth er y penderfyniad i beidio â bwrw ymlaen â'r integreiddio gyda gwasanaethau cymdeithasol Blaenau Gwent. Mae hyn yn cynnwys gwaith yn y rhanbarth gyda phum awdurdod lleol arall a phartneriaid iechyd ym meysydd iechyd meddwl ac anabledd dysgu. Ni fydd hyn yn rhydd o heriau o ran ei weithredu a threfniadau llywodraethu.

Mae arolygiadau rheoleiddio AGGCC wedi darparu adborth cadarnhaol o ran gweithio ar y cyd mewn gwasanaethau ail-alluogi. Dangosodd yr adolygiad o

wasanaethau iechyd meddwl a threfniadau ar y cyd gyda'r adrannau iechyd a thai ym mis Medi 2013 bod aelodau staff ar lawr gwlad o'r farn y gellid gwneud gwelliannau mewn rhai meysydd. Cynhelir cyfarfodydd partneriaeth yn rheolaidd i ategu'r trefniadau gweithio ar y cyd gydag ymarferwyr.

Yn y gwasanaethau iechyd meddwl, canfuwyd cysylltiadau gwell â'r adran dai a datblygiadau arfaethedig cadarnhaol.

Mae'r cyngor yn cynnal ac yn rheoli gwasanaeth lleoli oedolion De-ddwyrain Cymru, Cysylltu Bywydau, sy'n cynnwys ardaloedd awdurdodau lleol ar draws y rhanbarth ehangach. Mae adborth i AGGCC gan bartneriaid sydd wedi eu cynnwys yn y trefniadau hyn wedi bod yn gadarnhaol a thrafodwyd meysydd ychwanegol i'w datblygu. Mae hyn yn cynnwys codi ymwybyddiaeth o ddewisiadau a defnyddiau ehangach posibl y gwasanaeth gydag ymarferwyr.

Dangosodd trafodaethau bod gweithwyr cymdeithasol yn ystyried hyn yn bennaf o ran lleoliadau mwy hirdymor ar gyfer anabledd dysgu. Dylai'r cyngor ystyried adolygu'r dangosyddion cynnar hyn (gyda phartneriaid) ac ystyried camau i sicrhau datblygiad parhaus ac ehangu'r defnydd o'r gwasanaeth.

Cynhelir fforymau darparwyr gwasanaethau penodol yn rheolaidd ac maent yn cynnwys darpariaeth fewnol. Mae'r rhain yn cynnig cyfle i drafod ac ar gyfer dysgu ac ymgynghori ar y cyd.

Plant

Mae adroddiad y cyfarwyddwr yn cyfeirio at ymgynghori â theuluoedd a phobl ifanc sy'n defnyddio gwasanaethau. Dangosodd tystiolaeth a ddarparwyd gan y cyngor bod ymrwymiad i fabwysiadu dull cynhwysol o geisio adborth gan unigolion, ar y pwynt asesu ac adolygu er enghraifft. Yn fwy cyffredinol, gofynnir am adborth trwy arolygon a holiaduron.

Adroddodd y cyngor hefyd ei fod yn llunio straeon digidol ac mae hwn yn faes yr hoffai AGGCC ei archwilio ymhellach yn ystod y flwyddyn i ddod.

Cynhaliwyd ymgynghoriad â theuluoedd plant ag anabledd yn rhan o'r gwaith o ddatblygu a newid y gwasanaethau seibiant.

Cynrychiolwyd safbwyntiau pobl ifanc ar wasanaethau yn y cyfarfod craffu ar iechyd, gofal cymdeithasol a lles gan gynrychiolydd y fforwm pobl ifanc.

Adolygwyd cynllunio gofal hirdymor ar gyfer y rhai sy'n gadael gofal gan ymateb i anghenion sy'n newid ac roedd hyn wedi arwain at newidiadau i'r gwasanaethau oedd ar gael, er enghraifft gofalwyr maeth yn darparu llety â chymorth, a fflat annibyniaeth wedi ei gynnwys yn y cartref plant newydd sbon.

Mae'r cyngor wedi bod yn ymrwymedig i amrywiaeth o fentrau cydweithredol rhanbarthol. Mae'r rhain yn cefnogi amcanion partneriaeth mewnol i wella gwasanaethau ac maent yn unol â pholisi Llywodraeth Cymru. Mae'r rhain yn cynnwys gweithio gyda'r pum awdurdod rhanbarthol arall i ddatblygu bwrdd diogelu rhanbarthol a weithredwyd ers mis Ebrill 2013, y gwasanaeth cymorth i

deuluoedd integredig rhanbarthol a datblygu gwasanaeth mabwysiadu rhanbarthol (y bwriedir ei roi ar waith yn 2014).

Golygodd y penderfyniad i beidio â bwrw ymlaen â'r integreiddiad â Blaenau Gwent na ddatblygwyd y gwasanaeth maethu ar y cyd arfaethedig. Er hynny, mae'r gwasanaeth tîm troseddau ieuenctid ar y cyd yn parhau a bydd yn destun adolygiad allanol yn 2013/14.

Mae'r cyfarwyddwyr yn adrodd y bu llwyddiant gyda'r model Tîm o Amgylch y Teulu a chysylltiadau agos â'r adran addysg mewn gwasanaethau ataliol ar gyfer plant mewn angen. Mae darpariaeth Dechrau'n Deg a Theuluoedd yn Gyntaf wedi ei sefydlu ar gyfer yr ardaloedd yn y fwrdeistref sydd ag anghenion a nodwyd, a sicrhawyd adnoddau ychwanegol i ddatblygu hyn ymhellach. Mae arolygiadau AGGCC o feithrinfeydd sy'n darparu'r gwasanaeth hwn wedi canfod canlyniadau da o ran y cyfleoedd sydd ar gael i blant, er y bydd angen gweld yr effaith gyffredinol yn fwy eang a hynny'n fwy hirdymor.

Meysydd o gynnydd

- Ymrwymiad i ddatblygu trefniadau rhanbarthol a gweithio ar y cyd i ddatblygu gwasanaethau cynaliadwy.

Meysydd i'w gwella

- Parhau i ddatblygu ymwybyddiaeth gydag ymarferwyr o'r dewisiadau sydd ar gael i ddefnyddio'r gwasanaeth "cysylltu bywydau".

Cael gafael ar gymorth:

Mae amrywiaeth eang o wybodaeth am fynediad at wasanaethau ar gael i'r cyhoedd drwy'r rhyngwrwyd yn ogystal â thrwy ffynonellau mwy traddodiadol, ee taflenni. Mae gwefan y cyngor yn darparu adnodd eglur sy'n rhwydd ei ddefnyddio ar gyfer darpar ddefnyddwyr gwasanaeth a'r rhai cyfredol yn ogystal â'u gofawyr. Mae hyn yn cynnwys dolenni i wybodaeth, canllawiau a gwasanaethau perthnasol ychwanegol. Mae'r cynlluniau ar gyfer 2013/14 yn cynnwys adolygiad o'r wefan gan gynnwys yr hyn sydd ynddi a pha mor rhwydd y gellir cael gafael ar wybodaeth.

Mae'r cyngor wedi mynegi'n eglur ei amcan o wella gwasanaethau i ofalwyr ond mae dangosyddion perfformiad yn dangos bod nifer yr asesiadau gofawyr wedi gostwng i ofalwyr oedolion a phlant (oedolion o 100% i 90%, plant o 100% i 96%). Mae'r gwasanaethau a ddarperir wedi gostwng ers y flwyddyn flaenorol hefyd. Fodd bynnag, mae'r cyngor wedi bod yn ymwybodol o hyn ac wedi mabwysiadu dull rhagweithiol i fynd i'r afael â'r mater, gan gyflogi aelod o staff sy'n canolbwyntio'n benodol ar wella gwasanaethau i ofalwyr. Hefyd, comisiynwyd darn o waith ar draws y pum awdurdod rhanbarthol i ymchwilio ymhellach i hyn.

Oedolion

Mae systemau drws ffrynt wedi ei sefydlu ar gyfer y gwasanaethau i oedolion, iechyd meddwl a'r tîm eiddilwch. Mae gwybodaeth eglur am drefniadau cyswllt ar gael ar wefan y cyngor. Mae hyn yn cynnwys canllawiau ar yr hyn y gall pobl ei ddisgwyl gan wasanaethau. Mae perfformiad yn dynodi bod adolygiadau yn y gwasanaethau i oedolion wedi gostwng ers y llynedd. Er bod hyn yn dal i fod yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol, mae'r cyngor wedi ei amlygu fel maes i'w wella ar gyfer y flwyddyn nesaf. Mae'r tîm rheoli wedi trafod rhesymau posibl am y gostyngiad hwn mewn cyfarfodydd ymgysylltu gydag AGGCC ac mae wedi dadansoddi'r rhain yn rhan o'r ymgyrch i wella. Nododd hyn y gallai'r dulliau o grynhoi gwybodaeth yn genedlaethol (asesiadau iechyd meddwl yn cael eu cynnwys mewn ystadegau iechyd) fod wedi effeithio ar ffigurau perfformiad lleol.

Mae nifer yr achosion o oedi wrth drosglwyddo gofal wedi cynyddu rhyw fymryn ers y flwyddyn cynt ac mae'n dal i fod yn y chwarterl isaf ar gyfer Cymru. Dywedir bod y lleoliad daearyddol o ran nifer yr ysbytai sy'n rhyddhau yn effeithio ar hyn. Mae gan y cyngor berthynas waith agos gyda phartneriaid iechyd rhanbarthol a gallai cyfleoedd i ymestyn y cysylltiadau hyn i fyrddau iechyd cyfagos hwyluso archwiliad pellach o'r rhesymau am oediadau a gwella canlyniadau i bobl.

Plant

Mae trefniadau ar gyfer asesu plant a phobl ifanc yn eglur drwy'r tîm cyswllt ac asesu. Mae'r cyngor yn parhau ei berfformiad cryf o ran asesu ac adolygu er bod nifer yr ymweliadau statudol yn unol â'r rheoliadau wedi gostwng ers y flwyddyn flaenorol. Ers y llynedd, mae nifer y plant sy'n cael eu gweld gan weithiwr cymdeithasol cymwysedig wedi cynyddu ac mae cyfraddau ail-atgyfeirio wedi aros yr un fath.

Dangosodd arolwg blynyddol o blant sy'n derbyn gofal bod mwyafrif yr ymatebwyr (20% oedd y gyfradd ymateb) yn gwybod sut i gael gwybodaeth am wasanaethau cymdeithasol ac yn gallu cysylltu â gweithiwr cymdeithasol yn ôl yr angen.

Er bod dangosyddion perfformiad yn dangos bod cwblhad adolygiadau ac asesuadau yn gadarnhaol, mae adroddiad y cyfarwyddwr yn dangos bod archwiliad mewnol wedi amlygu meysydd i'w datblygu o ran ansawdd prosesau cofnodi yn y gwasanaethau i blant. Nodwyd y bydd archwiliad arall i adolygu cynnydd yn cael ei gynnal yn 2013/14.

Mae'r gwasanaethau cymdeithasol wedi cynnal dull blaengar o ddatblygu arfer. Cymerodd aelodau staff y gwasanaethau i blant ran mewn prawf cenedlaethol o asesu ar sail canlyniadau, a chynllunio ac adolygu gofal a gynhaliwyd ar ran yr Asiantaeth Gwella Gwasanaethau Cymdeithasol, a bydd datblygu ac adolygu parhaus o hyn yn ymarferol yn faes i ganolbwyntio arno yn y dyfodol.

Meysydd o gynnydd

- Datblygu dull asesu a rheoli ac adolygu gofal sy'n seiliedig ar ganlyniadau.

Meysydd i'w gwella

- Parhau i ddod o hyd i ddulliau i nodi ac ymgysylltu â defnyddwyr a datblygu'r dulliau hyn.

Y gwasanaethau a ddarparwyd:

Mae amrywiaeth o wasanaethau ar gael yng Nghaerffili. Mae'r cyngor yn darparu ac yn parhau i ddarparu ei wasanaethau mewnol yn ogystal â chomisiynu gyda darparwyr gwasanaeth allanol. Mae gan y cyngor ymagwedd ragweithiol at gydweithredu, diogelu a datblygu gwasanaethau cyfredol yn ogystal â nodi cyfleoedd newydd ar gyfer mentrau ar y cyd.

Mae trefniadau llywodraethu'r cyngor yn darparu strwythur ar gyfer adolygu ac archwilio ansawdd sy'n cael ei adrodd yn rheolaidd i'r uwch dîm rheoli ac ar lefel corfforaethol.

Oedolion

Mae adolygu ac ail-lunio gwasanaethau wedi parhau mewn ymateb i anghenion sy'n newid ac i wella gofal cymunedol, er enghraifft adolygiad o'r ddarpariaeth o ofal dydd a hyrwyddo dulliau amgen i gynorthwyo pobl yn eu cartrefi eu hunain.

Mae tîm adnoddau cymunedol y cyngor wedi parhau i gynnal y ddarpariaeth leol o fodel Eiddilwch Gwent ac adroddwyd llwyddiant parhaus. Rhagwelir y bydd adolygiad o'r gwasanaeth hwn ar draws y rhanbarth yn cael ei gynnal ar y cyd gan reoleiddwyr gan gychwyn yn 2014. Dylai ychwanegu gwelyau ail-alluogi yn un o'r gwasanaethau preswyl mewnol gynnig dewis cadarnhaol i alluogi pobl i aros yn y gymuned a bydd y cyngor eisiau parhau i fonitro canlyniadau'r gwasanaeth hwn.

Bu buddsoddiad mewnol mewn ehangu'r gwasanaeth gofal dementia yn un o gartrefi gofal y cyngor gan ddefnyddio menter Fy Mywyd Mewn Cartref. Gwnaed rhywfaint o waith cynnar i annog darparwyr allanol i fuddsoddi yn y datblygiad ansoddol hwn.

Mae'r cyngor yn darparu tystiolaeth o gysylltiadau da ag asiantaethau gwirfoddol lleol ac mae'n ceisio datblygu cymorth a gyfeirir gan ddinasyddion. Mae'r angen i grynhoi hyn fel adnodd i aelodau staff gyfeirio ato hefyd wedi ei amlygu fel maes yr hoffai'r cyngor ei wella.

Defnyddir archwilio mewnol i adolygu gwasanaethau a nodi gwelliannau. Canfu AGGCC ddangosyddion cadarnhaol o archwilio ar y cyd a wnaed gyda'r adran iechyd yn rhan o'r adolygiad o wasanaethau iechyd meddwl.

Mae'r cyngor werthi'n datblygu asesiadau sy'n seiliedig ar ganlyniadau. Mae'r dystiolaeth a ddarparwyd yn dangos bod ymrwymiad i ofyn am adborth gan unigolion, ar adeg yr adolygiad er enghraifft.

Adolygir ansawdd gwasanaethau darparwyr trwy fonitro contractau. Mae'r tîm wedi ei sefydlu'n dda ac mae'n gweithio'n agos â darparwyr i adolygu gwasanaethau ac, lle y'i nodwyd, mae wedi sicrhau gwelliannau. Mae adborth trwy arolygwyr rheoleiddio AGGCC wedi nodi y bu hwn yn ddull braidd yn ddwys ar adegau a allai amharu ar allu'r darparwr i wella. Mae trafodaethau trwy ein cyfarfodydd ymgysylltu wedi dangos bod yr adborth hwn wedi cael ei ystyried yn ymarferol gan y cyfarwyddwr dros dro.

Plant

Mae'r cyngor wedi parhau i ail-lunio a datblygu gwasanaethau i adlewyrchu anghenion lleol ac yn unol â pholisi cenedlaethol. Ceir pwyslais ar drefniadau ataliol yn fewnol, trwy gysylltu â'r adran addysg a chydag asiantaethau gwirfoddol i ddatblygu'r Tîm o Amgylch y Teulu, Dechrau'n Deg a Theuluoedd yn Gyntaf. Sicrhawyd adnoddau ychwanegol i ddatblygu'r dull hwn yn yr ardaloedd lle mae mwy o angen yn y fwrdeistref.

Mae'r cyngor yn gweithio'n unol â threfniadau cydweithredol rhanbarthol. Mae hyn yn cynnwys gweithredu gwasanaethau cymorth i deuluoedd rhanbarthol a datblygu'r gwasanaeth mabwysiadu rhanbarthol.

Mae cartref preswyl newydd i blant wedi ei ddatblygu a'i gofrestru. Mae hwn wedi disodli'r gwasanaeth blaenorol yn ogystal â darparu llety ychwanegol yn ystod y cyfnod pontio ar adeg gadael gofal.

Mae'r cyngor wedi ymrwymo i ddatblygu ei wasanaethau maethu. Ni aeth y cydweithrediad â Blaenau Gwent ar gyfer y gwasanaeth hwn yn ei flaen oherwydd i'r trefniadau integreiddio gael eu diddymu. Er hynny, mae'r cyngor wedi parhau i flaenoriaethu'r gwasanaeth a cheir amcanion eglur ar gyfer gwella yn ei flaenoriaethau ar gyfer 2014. Mae hyn yn cynnwys recriwtio mwy o ofalwyr maeth a rhaglen o hyfforddiant a datblygiad i ofalwyr o fewn y tîm datblygu'r gweithlu ar y cyd.

Yn rhan o'i swyddogaeth rhianta corfforaethol, canolbwyntiodd y cyngor ar wella canlyniadau i blant sy'n derbyn gofal. Mae grŵp trawsbleidiol yn cyfarfod yn rheolaidd i oruchwylio a datblygu hyn. Mae canlyniadau ar gyfer plant sy'n derbyn gofal wedi eu cynnwys fel amcan ar gyfer gwella i'r cyngor yn 2013/14. Mae canlyniadau cadarnhaol o'r buddsoddiad ychwanegol mewn cymorth addysgol i blant sy'n derbyn gofal wedi arwain at nodi adnoddau ychwanegol i gynnal mewnbyn ychwanegol ar gyfer y flwyddyn i ddod a'r mesurau canlyniadau a ragwelir a osodwyd ar gyfer hyn.

Gofynnir am safbwyntiau plant yn unigol wrth asesu ac adolygu, a cheir mynediad a chefnogaeth trwy wasanaethau eirioli annibynnol.

Meysydd o gynnydd

- Datblygu gwelyau ail-alluogi mewn cartref preswyl.
- Parhau'r prosiect ar gyfer mewnbyn addysgol ychwanegol i blant sy'n derbyn gofal yn seiliedig ar ganlyniadau cadarnhaol.

Meysydd i'w gwella

- Nodi a chrynhai adnoddau i aelodau staff allu cyfeirio atynt a pharhau i ddatblygu cymorth sy'n canolbwyntio ar ddinasyddion.

Yr effaith ar fywydau pobl:

Mae'r cynllun gwella sengl yn cynrychioli'r ymgyrch i gefnogi hawliau a dewisiadau unigol a lles corfforol ac emosiynol ar lefel uchel. Mae hyn yn ganolog i gynllun corfforaethol y cyngor. Mae gan y cyngor archwiliadau a systemau sydd wedi eu hen sefydlu ar gyfer ceisio safbwyntiau pobl ac annog adborth. Mae'r rhain wedi eu hymsefydlu yn y fframwaith llywodraethu, yn cael eu hadolygu o fewn yr adran gwasanaethau cymdeithasol, ac adroddir amdanynt drwy'r cyfarwyddwr ar lefel gorfforaethol.

Oedolion

Mae gan y gwasanaethau i oedolion ddull rhagweithiol o alluogi pobl i gadw eu hannibyniaeth. Mae hyn yn cynnwys datblygu rhwydweithiau cefnogaeth lleol. I bobl sydd angen darpariaeth ofal, mae'r amrywiaeth o wasanaethau yn cynnig rhywfaint o ddewis o ran sut, ble a chan bwy y mae gofal yn cael ei ddarparu. Ategir hyn gan amrywiaeth o adnoddau, er enghraifft ail-alluogi, gwasanaethau eiddilwch a chefnogi pobl, sydd wedi galluogi nifer gynyddol o bobl i dderbyn gofal yn y gymuned.

Mae arolygiad rheoleiddio AGGCC o wasanaethau yn y fwrdeistref wedi darparu adborth cadarnhaol o ran y ddarpariaeth fewnol o wasanaethau cymunedol/ail-alluogi.

O ran y bobl y mae eu hanghenion yn gofyn am gymorth mwy dwys mewn gwasanaethau preswyl, mae'r cyngor wedi gwneud gwelliannau i ofal dementia yn un o'i wasanaethau preswyl ei hun trwy weithredu'r fenter Fy Mywyd Mewn Cartref. Canfu arolygiad AGGCC o'r gwasanaeth hwn ganlyniadau cadarnhaol i bobl. Rhannwyd canlyniadau o'r gwaith hwn ar lefel genedlaethol.

I bobl sydd angen gofal preswyl â nyrsio, ac yn enwedig y rhai ag anghenion gofal dementia, mae'r dewis o wasanaethau yn fwy cyfyngedig. Mae'r gwasanaethau cymdeithasol wedi gweithio ar sail ranbarthol gydag awdurdodau lleol a'r bwrdd iechyd i drafod materion ehangach yn ymwneud â chomisiynu a datblygu amrywiaeth ac ansawdd y ddarpariaeth o wasanaethau ar gyfer y dyfodol. Mae'r gwaith hwn yn dal i fod ar y gweill.

Dangosodd ein hadolygiad o wasanaethau iechyd meddwl bod hwn yn parhau i fod yn faes i'w ddatblygu. Roedd tystiolaeth o well prosesau a dywedodd y

sampl bach o bobl i ni siarad â hwy eu bod yn cyflawni canlyniadau cadarnhaol. Gellid cynnal adolygiadau ychwanegol i ddarganfod y lefelau o welliant y mae'r gwasanaeth wedi eu darparu.

Caiff gwasanaethau a gomisiynwyd eu monitro i sicrhau y cynhelir y lefel o ansawdd ar gyfer pobl sy'n defnyddio gwasanaethau. Dylai'r newid i ddull sy'n seiliedig ar ganlyniadau olygu y darperir gwybodaeth sy'n canolbwyntio mwy ar yr unigolyn, y gellir seilio penderfyniadau gofal arni.

Mae gan yr adran dîm amddiffyn oedolion sydd wedi ei hen sefydlu ac sy'n gweithio'n agos â'r timau mewnol (yn enwedig contractau a chomisiynu) ac mae amddiffyn oedolion yn dal i fod yn faes gwasanaeth cryf wrth i berfformiad barhau i fod yn sefydlog. Caiff y cydweithrediad rhanbarthol ar gyfer diogelu oedolion ei gadeirio gan Gaerffili a bydd cryfhau gweithio ar y cyd a dysgu o brofiadau a rannwyd yn fantais bwysig i'r holl bartneriaid sydd wedi eu cynnwys yn y trefniadau hyn.

Plant

Mae'r perfformiad yn parhau i fod yn dda yn y gwasanaethau i blant. Mae strategaethau ataliol wedi eu sefydlu i sicrhau ymyrraeth gynnar ar gyfer teuluoedd a phlant mewn angen. Er bod cyfanswm y plant mewn angen wedi cynyddu yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, mae nifer y plant sy'n derbyn gofal a'r plant ar gofrestrau amddiffyn plant wedi gostwng am y drydedd flwyddyn yn olynol.

Nododd meysydd i'w gwella mewn adolygiad mewnol o effeithiolrwydd ac ansawdd y gwasanaethau i blant ag anableddau, er enghraifft o ran hyblygrwydd y gwasanaethau a ddarperir. Arweiniodd hyn at ddarpariaeth allanol o wasanaeth seibiant yn dychwelyd i ddarpariaeth fewnol yn ddiweddar. Bydd gwerthusiad o hyn yn penderfynu pa un a oes gwelliannau wedi eu cyflawni ar ôl i'r gwasanaeth ymsefydlu.

Cadarnhaodd arolygiad AGGCC o'r gwasanaeth maethu y gofynnir am safbwyntiau pobl ifanc a gofalwyr drwy'r grŵp pobl ifanc, Shout Out, a'r grŵp gofalwyr. Mae pobl ifanc hefyd yn cymryd rhan mewn hyfforddiant gofalwyr a dewis aelodau staff. Roedd adborth o'r arolygiad hwn yn gadarnhaol o ran y gwasanaethau a ddarparwyd.

Gofynnwyd am safbwyntiau plant sy'n derbyn gofal mewn arolwg blynyddol. Roedd y rhain yn gadarnhaol ar y cyfan o ran bod gweithwyr cymdeithasol ar gael iddynt ac o ran y gefnogaeth a ddarparwyd. Fodd bynnag, roedd cyfradd ymateb isel i'r arolwg (20%) a dylid ystyried sut i ymgysylltu â mwy o blant a phobl ifanc ar gyfer darparu adborth am y gwasanaethau y maent yn eu derbyn. Mae ffigurau perfformiad ar gyfer plant sy'n derbyn gofal yn gyffredinol dda er mai dim ond tri chwarter yr ymweliadau statudol a gynhaliwyd, sy'n awgrymu nad yw plant yn cael eu monitro fel y dylent.

Mae'r perfformiad o ran diogelu plant yn dal i fod yn y chwarter uchaf o gynghorau yng Nghymru, er bod canran y cynadleddau a'r cyfarfodydd grŵp craidd a gynhaliwyd yn unol ag amserlenni wedi gostwng rhyw fymryn.

Mae'r cyngor yn aelod o'r bwrdd diogelu rhanbarthol ac mae'n nodi bod adolygu cynnar wedi sicrhau newid/gwelliant mewn rhai o'r is-grwpiau i gefnogi hyn. Mae effaith trefniadau a rennir yn faes y bydd angen i'r holl aelodau ei fonitro'n lleol yn rhan o lywodraethu'r trefniant rhanbarthol yn gyffredinol.

Meysydd o gynnydd

- Ymrwymiad i drefniadau diogelu rhanbarthol.
- Datblygu darpariaeth gwasanaeth mewnol.
- Ymrwymiad ar lefel uwch reoli i adolygiad rhanbarthol o wasanaethau a gomisiynir a'r pwysau ar ofal preswyl i oedolion gyda phartneriaid gwasanaeth cymdeithasol ac ieuchyd.

Meysydd i'w gwella

- Ystyried ffyrdd o ymgysylltu ymhellach â phlant a phobl ifanc er mwyn cael adborth ar effaith gwasanaethau ar eu bywydau.
- Sicrhau y cynhelir ymweliadau statudol â phlant sy'n derbyn gofal fel sy'n ofynnol.

GALLU

Cyflawni Gwasanaethau Cymdeithasol:

Gweithiodd y gwasanaethau cymdeithasol o fewn eu cyllideb ar gyfer y flwyddyn. Diogelodd y cyngor ei gyllideb gwasanaethau cymdeithasol yn 2012/13 ac mae wedi cadarnhau ei fwriad i gynnal hyn yn ystod y flwyddyn ariannol nesaf hefyd. Mae'r cyngor wedi cydnabod y cyfyngiadau a'r gofynion yn sgil demograffeg sy'n newid a phoblogaeth sy'n heneiddio'n gynyddol, yn ogystal â rhagweld effaith diwygio lles.

Mae amcanion ar gyfer gwella a chynllun integredig sengl y cyngor yn ystyried heriau hirdymor i'r fwrdeistref ac yn disgwyl y bydd strategaethau ataliol mwy hirdymor yn sicrhau'r ddarpariaeth barhaus o wasanaethau i'r bobl sydd fwyaf agored i niwed. Mae cynllun ariannol tymor canol wedi ei sefydlu ac mae proses fonitro fisol ar waith i sicrhau bod pwysau'n cael eu nodi'n gynnar.

Mae adroddiad y cyfarwyddwr yn cydnabod yr angen i adolygu ac ail-lunio'r gwasanaethau a ddarperir yn barhaus, ac i nodi arbedion a gwelliannau posibl er mwyn sicrhau bod gwasanaethau yn canolbwyntio ar feysydd allweddol o angen, gan ddatblygu cadernid ar gyfer y dyfodol a chynnig y gwerth gorau am arian.

Yn ei amcanion o ran gwella ar gyfer 2013/14, mae'r cyngor yn nodi ei fwriad i wella canlyniadau i blant sy'n derbyn gofal trwy leihau'r ganran sy'n newid lleoliadau yn ystod y flwyddyn. Datblygwyd timau lleoli teuluoedd i wella

prosesau recriwtio a chefnogi gofalmwyr maeth, ac mae adnoddau ariannol ychwanegol wedi eu neilltuo i ariannu hyn.

Nodwyd cyllid ychwanegol hefyd i gefnogi datblygiad tîm 16 oed a hyn.

Ystyriwyd cadernid y gweithlu ac, er bod recriwtio diweddar wedi llenwi swyddi mewn timau, cynhaliwyd adolygiad ychwanegol i sicrhau rhagor o adnoddau ariannol ar gyfer staffio yn y gwasanaethau ieuchyd meddwl.

Mae'r cyngor wedi ymrwymo i raglen datblygu staff ac mae hyn wedi arwain at greu tîm datblygu'r gweithlu ar y cyd â gwasanaethau cymdeithasol Blaenau Gwent. Sefydlwyd hyn yn sgil y gwaith integreiddio gwreiddiol rhwng y ddwy adran gwasanaethau cymdeithasol ac fe'i cefnogwyd gan reolwyr busnes cryf a'r ddau gyfarwyddwr. Bydd AGGCC yn ymweld â'r gwasanaeth hwn yn 2013/14.

Meysydd o gynnydd

- Sefydlu'r tîm datblygu'r gweithlu ar y cyd.

Meysydd i'w gwella

- Parhau i ddatblygu adnoddau a chyfeirio i "dyfu" cefnogaeth sy'n canolbwyntio ar ddinasyddion.

Darparu cyfeiriad:

Yn 2012/13, cynhaliodd AGGCC adolygiad cenedlaethol o swyddogaeth statudol cyfarwyddwr y gwasanaethau cymdeithasol. Darparodd hwn adolygiad manwl o swyddogaethau'r cyfarwyddwr a'r dulliau cefnogi sydd ar waith i'w alluogi i gyflawni ei ddyletswyddau statudol. Cadarnhaodd yr adolygiad bod dealltwriaeth eglur yng Nghaerffili o gyfrifoldebau'r cyfarwyddwr, ac roedd strwythurau cadarn a threfniadau llywodraethu a chefnogi ar waith i alluogi'r cyfarwyddwr i wneud ei swydd.

Daeth swydd cyfarwyddwr cynorthwyol y gwasanaethau i blant ar gael yn ystod y flwyddyn ac roedd yn swydd ar y cyd rhwng Blaenau Gwent a Chaerffili yn ystod y symudiad tuag at integreiddio. Mae dangosyddion perfformiad yn dangos nad oedd unrhyw effaith arwyddocaol ar berfformiad y maes gwasanaethau i blant yn ystod y cyfnod hwn. Bydd penodiad parhaol i'r swydd hon gan y cyngor yn ystod y flwyddyn ariannol newydd yn darparu sefydlogrwydd ac arweinyddiaeth i barhau'r gwaith o adolygu a datblygu'r gwasanaethau i blant.

Bu newid pellach i'r uwch reolwyr erbyn diwedd y flwyddyn. Ar ôl i gyfarwyddwr y gwasanaethau cymdeithasol adael, gadawyd swydd wag sy'n cael ei gwneud yn fewnol ar hyn o bryd gan gyfarwyddwr cynorthwyol y gwasanaethau i oedolion a chyda threfniadau dros dro ar gyfer gwneud ei swydd ef. Bu oedi o ran penodi i swydd y cyfarwyddwr oherwydd newidiadau corfforaethol. Ar adeg drafftio'r adroddiad hwn, nid yw'r trefniadau dros dro wedi effeithio ar ansawdd

y ddarpariaeth yn y gwasanaethau cymdeithasol. Fodd bynnag, mae'n hanfodol bod penodiad yn cael ei wneud i gynnal y momentwm o ran bodloni amcanion a darparu sefydlogrwydd a chyfeiriad hirdymor.

Mae aelod y cabinet dros y gwasanaethau cymdeithasol (sydd wedi bod yn ymwneud â'r gwasanaethau cymdeithasol yn rhinwedd ei swydd ers amser maith) yn weithredol o ran ei swyddogaeth/cefnogaeth i'r gyfarwyddiaeth ac yn amlwg o ran ei gefnogaeth a'i bresenoldeb mewn cyfarfodydd/digwyddiadau.

Cydnabyddir bod mentrau trawsbynciol rhwng y gwasanaethau cymdeithasol a'r adran iechyd a lles yn hanfodol ar lefel gorfforaethol, ac fe'u hadolygir mewn un pwyllgor craffu. Roedd AGGCC yn bresennol i arsylwi cyfarfod craffu lle'r oedd presenoldeb da. Roedd yr agenda lawn yn cynnig cyfle i drafod amrywiaeth o faterion a drafodwyd yn fanwl cyn gwneud penderfyniadau. Roedd cynrychiolaeth o ran y staff a'r fforwm ieuenctid lleol yn bresennol, a gwnaed cyflwyniadau ganddynt i'r aelodau a oedd yno.

Cynhelir cysylltiadau agos rhwng y gwasanaethau i blant a'r adran addysg gan gynnwys cyd-leoli gwaith diogelu a gweithio gyda'r tîm o amgylch y teulu. Ceir ymrwymiad corfforaethol i blant sy'n derbyn gofal, sy'n cynnwys cyllid ychwanegol ar gyfer cymorth addysgol.

O ran datblygu ei swyddogaeth rhianta corfforaethol, cynhaliwyd sesiynau a werthfawrogwyd i aelodau perthnasol, i'w galluogi i ddatblygu eu dealltwriaeth o'r swyddogaeth hon.

Mae ein cyfarfodydd ymgysylltu ac amcanion y cyngor ar gyfer 2013/14 wedi dangos bod y cyngor yn canolbwyntio'n eglur ar weithio ar y cyd ag amrywiaeth o asiantaethau (y sectorau cyhoeddus a phreifat a'r trydydd sector) i sbarduno gwelliant a gwasanaethau sy'n cynnig y gwerth gorau am arian.

Meysydd o gynnydd

- Ymgysylltu cadarnhaol â phartneriaid iechyd.

Meysydd i'w gwella

- Sicrhau penodiad parhaol i swydd cyfarwyddwr y gwasanaethau cymdeithasol.